**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD LLUN, 22 EBRILL, 2013**

**MONDAY, 22 APRIL, 2013**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR DAFYDD ORWIG,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR,**
**CAERNARFON**
**am /at 11.00am.**

**(Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig i gyfarfod ger y Plas ar Ystad y Faenol am 9.30am)**
**(Sub-committee members only to meet near the Mansion on the Vaynol Estate at 9.30am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 12/04/13

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones-Williams (Cadeirydd/Chairman)

Ann Williams

Elfed Williams

Eddie Dogan (wrth gefn/reserve)

**Aelodau Lleol / Local Members**

Cynghorwyr/Councillors

John W. Williams (Cais/Application 4)

Lesley Day (Cais/Application 5)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. 11.00am CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GŴYL KAYA, YSTAD Y FAENOL, BANGOR**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **glas**)

**5. 12.00 CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD POWIS, COLEG Y BRIFYSGOL, BANGOR**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **aur**)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **22 EBRILL 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - GŴYL KAYA, YSTÂD Y FAENOL, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Gŵyl Kaya, Ystâd y Faenol, Bangor LL57 4BP oddiwrth Kaya Festival Events Limited o 46 Chalkdell Path, Hitchin, SG5 2LG.Bwriad yr ymgeisydd yw cynnal Gŵyl Kaya ar safle ystâd y Faenol yn flynyddol. Fe gynhaliwyd yr ŵyl eisoes yn 2012, gan ddefnyddio trwydded stad y Faenol pryd hynny. Gan fod trefnwyr yr ŵyl yn bwriadu cynnal yr ŵyl yn y lleoliad hwn yn flynyddol, fe wnaethpwyd y penderfyniad ar gyngor yr Awdurdod Trwyddedu i wneud cais trwydded eiddo yn benodol ar gyfer yr ŵyl. Prif fwriad yr ŵyl yw cyflwyno cerddoriaeth fyw byd - eang i gynulleidfa o ddim mwy na 5,000. Fe fydd yr ŵyl yn cael ei chynnal y flwyddyn hon o'r 24ain o Fai hyd at fore'r 27ain o Fai.

| **Gweithgareddau trwyddedig** | **Oriau** |
|---|---|
| | |
| Dangos ffilmiau | 00:00 – 23:59 |
| Cerddoriaeth Fyw | 09:00 – 02:00 |
| Cerddoriaeth wedi ei recordio | 09:00 – 02:00 |
| Perfformiad dawns | 09:00 – 02:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth | 09:00 – 02:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer dawnsio | 09:00 – 02:00 |
| Darparu lluniaeth hwyr y nos | 23:00 – 04:00 |
| Cyflenwi alcohol | 11:00 – 02:00 |
| Oriau agor a chau i'r cyhoedd | 00:00 – 23:59 |
| | |

Yn ogystal â'r uchod, fe welir o dudalen 12 y cais fod bwriad cynnal gweithgareddau megis cabaret, comedi, cyflwyniadau llafar, celfyddyd wedi ei berfformio, perfformiadau syrcas a chynnal ffair.

Mae'r Heddlu wedi trafod y cais gyda'r ymgeisydd cyn i'r cais gael ei gyflwyno; ac fe nodir yn y sylwadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu fod y cais yn unol â'r trafodaethau a gafwyd; ac felly nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned/Tref | Dim sylwadau |
| Heddlu | Llythyr – dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Llythyr – sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | E bost - sylwadau |
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | Llythyr ac adroddiad - gwrthwynebu |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU**

**Preswylwyr Cyfagos**

Cafwyd un llythyr gyda sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu o

- Atal niwsans cyhoeddus
- Atal trosedd ac anrhefn

Mae'r preswylwyr yn bryderus fod sŵn cerddoriaeth o'r ŵyl yn mynd i amharu arnynt yn yr un modd y mae sŵn o ddigwyddiadau mawr eraill ar ystâd y Faenol wedi amharu arnynt yn y gorffennol.
Datganir pryderon hefyd ynglŷn â chau prif lonydd mynedfa ar ystâd y Faenol a chyfeirio cerddwyr heibio i anheddau gan achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hwyr yn y nos.

**Gwasanaeth Tan ac Achub.**

Yn dilyn cylchrediad o ddrafft o'r cais a gyflwynwyd i'r awdurdodau perthnasol, fe gafwyd ymateb cadarnhaol gan y Gwasanaeth Tan. Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i ddarparu dogfennau gan gynnwys asesiadau risg 8 wythnos cyn cychwyn y digwyddiad; ac fe nodir fod hyn yn gam positif ymlaen i sicrhau fod cyfle i gael trafodaeth ar unrhyw broblemau mewn da o bryd cyn cychwyn yr ŵyl.

**Sylwadau Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd**

Gwrthwynebir y cais ar y sail nad yw'r ymgeisydd wedi gallu arddangos y bydd modd osgoi tanseilio'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Os yw'r Is - Bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais; argymhelliad y swyddog Gwarchod y Cyhoedd yw cyfyngu gweithgareddau trwyddedig dros dri diwrnod mewn unrhyw 12 mis.

Yn ogystal gofynnir i'r Is - Bwyllgor gynnwys yr amodau sŵn a restrir yn atodlen 3 o adroddiad y Swyddog Gwarchod y Cyhoedd os yw'r Is - Bwyllgor yn penderfynu caniatáu y cais.

Cafwyd hefyd sylwadau ar y cais drafft am drwydded gan Swyddogion parthed materion Iechyd a Diogelwch a Diogelwch bwyd. Fe ategwyd y pwysigrwydd o sicrhau fod dogfennau perthnasol yn cael eu derbyn gan y trefnwyr mewn digon o bryd cyn y digwyddiad i sicrhau fod cyfle i ddatrys unrhyw broblemau a all godi.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| DYDDIAD: | 22 EBRILL 2013 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD POWIS, PRIFYSGOL BANGOR |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH RHEOLEIDDIO |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Neuadd Powis, Coridor Powis, Neuadd PJ, Y Pedrant mewnol ac allanol, a’r Prif Adeilad y Celfyddydau ar Ffordd y Coleg, Prifysgol Bangor LL57 2DG. Cyflwynir y cais ar ran y Brifysgol gan Cheryl Wright , Gwasanaethau Masnachol Adeilad Ffriddoedd, Rhodfa Buddug, Bangor LL57 2EN. Pwrpas cyflwyno’r cais yw sicrhau ymestyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol sy’n bodoli ar y drwydded gyfredol ar gyfer y mangreoedd a nodir ar gyfer y Ddawns Haf a gynhelir unwaith y flwyddyn yn ystod Mai/Mehefin.

| Gweithgareddau trwyddedig | Oriau Cyfredol | Oriau Arfaethedig |
|---|---|---|
| | | |
| Perfformiad o ddramâu | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Dangos ffilmiau | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cerddoriaeth Fyw | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cerddoriaeth wedi ei recordio | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Perfformiad dawns | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Cyfleusterau ar gyfer dawnsio | 09:00 – 00:00 | 09:00 – 00:00 |
| Darparu lluniaeth hwyr y nos | | |
| Cyflenwi alcohol | 12:00 – 23:00 | 12:00 – 23:00 |
| Oriau agor a chau i’r cyhoedd | 09:00 – 00:30 | 09:00 – 00:30 |
| Amseroedd an -safonol | | 09:00 – 05:00* |

Gofynnir am ymestyn oriau gweithgareddau trwyddedig tan 05:00 y bore ar gyfer y Ddawns Haf, bwriedir chware cerddoriaeth tu mewn i’r adeiladau yn unig ar ôl 04:00 y bore.

Mae’r Heddlu wedi trafod y cais gyda’r ymgeisydd cyn i’r cais gael ei gyflwyno; ac fe nodir yn y sylwadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu fod y cais yn unol â’r trafodaethau a gafwyd; ac felly nid yw’r Heddlu yn gwrthwynebu’r cais.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned/Tref | Dim sylwadau |
| Heddlu | E bost – dim gwrthwynebiad |
| Preswylwyr cyfagos | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr - sylwadau ac amodau |
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | Llythyr - sylwadau ac amodau |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

**CRYNODEB O'R SYLWADAU**

**Gwasanaeth Tan ac Achub.**

Gwneir argymhelliad o ran y niferoedd o bobl a ganiateir fel cyfanswm ymhob mangre sydd yn berthnasol i'r cais.
Fe wneir argymhelliad hefyd parthed canllawiau diogelwch tan ar gyfer pebyll adloniant, yn ogystal ag argymhelliad parthed cadw drysau ar agor yn ystod cyfnodau gweithgareddau trwyddedig.

**Sylwadau Swyddog Gwarchod y Cyhoedd**

Gofynnir i'r Is - Bwyllgor gynnwys yr amodau penodol a atodir gyda llythyr y swyddog mewn perthynas â atal niwsans sŵn a niwsans yn deillio o oleuadau os bydd y cais yn cael ei ganiatáu.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.